mantell gwynedd

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 38
Medi 2007

CYNNWYS

Newyddion 2

Cymunedau'n Gyntaf 4

Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd 5

Digwyddiadau a Hyfforddiant 6

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 7

Grantiau 8

AR OSOD

Ystafell/Swyddfa yn 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon. Telerau i'w trafod. Cysyllter â Ceren Williams, Mantell Gwynedd ar: 01286 672626 neu drwy ebostio ceren@mantell-gwynedd.com

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

ESF UK YR UNDEB EWROPEAIDD Cronfa Gymdeithasol Ewrop AMCAN 1 EUROPEAN UNION European Social Fund OBJECTIVE 1

RHAN-ARIENNIR Y PROSIECT GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn agor Canolfan 'Cylch yr Efail', Blaenau Ffestiniog

O'r chwith: Cynghorydd Henry Jones, Cricieth, Cyfarwyrdwraig Seren Linda Ann Wyn Jones, Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC a'r Pensaer Maredudd ab Iestyn RIBA.

Agorwyd canolfan grefftau a chodi ymwybyddiaeth at ailgylchu ac ail ddefnyddio nwyddau newydd sbon ym Mlaenau Ffestiniog gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC. Datblygwyd y cynllun gan gwmni SEREN a leolir yn y dref ac a sefydlwyd yn 1997 gyda'r nod o gynnig cyfleon i bobl gydag anawsterau dysgu, i fyw, gweithio a chymdeithasu yn naturiol o fewn y gymuned. Cefnogwyd y cynllun yn ariannol gan gronfa CAE y Parc Cenedlaethol, Aggregate Levy Fund, grant Gwella yr Amgylchedd y Cynulliad Cenedlaethol a chronfa Amcan Un y Gymuned Ewropeiaidd, yn ogystal â Seren ei hun.

Mae'r cwmni yn weithgar iawn ym maes ailgylchu ac ail ddefnyddio gyda chynllun adnewyddu a gwerthu dodrefn ail law wedi ei leoli ar stad ddiwydiannol Llwyngell ym Mlaenau Ffestiniog. Cyflogir 58 gan y cwmni, 43 ohonynt yn llawn amser a 15 yn rhan amser yn ogystal â chynnig cymorth gofal i 30 o bobl. Mae bellach yn un o brif gyflogwyr y Blaenau a De Gwynedd.

Yn ôl y Rheolwraig Gyfarwyddwraig Linda Ann Wyn Jones, sefydlwyd y gwaith crefftau oddeutu 6 mlynedd yn ôl ac fe leolwyd mewn adeilad yn wynebu'r parc cyhoeddus yn y dref. Y prif weithgaredd yw cynhyrchu crefftau safonol o bapur a deunydd arall a gaiff eu hailgylchu. Gwerthir y rhain trwy siop y cwmni a leolir yn Stryd yr Eglwys yn y dref. "'Roeddem yn berchen ar dir nepell o'r adeilad hwnnw, tir digon bler i ddweud y gwir, ac fe benderfynwyd datblygu'r cynllun arbennig hwn er mwyn sicrhau gwell cyfleusterau i'r staff a datblygu'r busnes. Cipiodd ddychymyg yr arianwyr a bwrdd Seren ac fe gychwynwyd ar y gwaith o'i adeiladu llynedd. 'Rydym yn falch i'r sawl a ddyluniodd ac a gynlluniodd y ganolfan yn ogystal â'r adeiladwr Henry Jones a'i Feibion o Gricieth, ac wrth gwrs y cyllidwyr."

Dros y gaeaf datblygir rhaglen o gyflwyniadau, seminarau a chyrsiau fydd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth y gymuned tuag at yr angen i ailgylchu ac ail ddefnyddio mwy o nwyddau. "Y nod," medd y Rheolwr Cynllun, Terry Williams "yw datblygu'r ganolfan fel man lle gall y cyhoedd a busnesau ddenu gwybodaeth am ailgylchu fel cysylltiadau yn y maes, lleoliadau canolfannau ailgylchu, y cyfreithiau diweddaraf ac yn y blaen - a hyn mewn ffordd ymarferol. Targedir plant ac oedolion, cyrff gwirfoddol a busnesau. Yn ogystal byddem yn datblygu cynyrch crefftau newydd allan o ddeunydd wedi ei ailgylchu".

Swyddfeydd Mantell Gwynedd

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. ☎ 01286 672626 • 🖷: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. ☎ 01341 422575 • 🖷: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru

Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Staff Mantell Gwynedd

CAERNARFON

Prif Swyddog: Bethan Russell Owen

TÎM GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol: Meinir Jones
Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Carys Williams
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym.: Sioned Llwyd Larsen
Swyddog Gwybodaeth: Ann Vaughan Jones
Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: Delyth Vaughan

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Rheolydd Cyllid a Gweithrediadau: Ceren Williams
Swyddog Gweinyddol: Bronwen Rowlands
Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Tracy Lynne Roberts

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Cydlynydd Gwirfoddolwyr: Rhianon Jones
Swyddog Gwirfoddoli: Iola Till
Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid: Mirain Roberts

DOLGELLAU

TÎM GWASANAETHAU

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Mair Huws
Swyddog Cefnogaeth a Hyfforddiant: Lindsey Ellis

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Beryl Norgrove

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Swyddog Gwirfoddoli: Ann Angharad Fleming

FFORWM GWYNEDD

Gwahoddir chi i gyfarfod o Fforwm Gwynedd yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, Nos Fercher, 26 Medi 2007 rhwng 6.00pm ac 8.00pm.

Dewch i weld beth a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ynghyd a chael gwybodaeth am y trefniadau newydd.

Hoffem eich barn ar syniadau i wella ansawdd bywyd yng Ngwynedd i'r dyfodol, felly gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r daflen sydd ynghlwm â'r rhifyn hwn o Mantell a'i dychwelyd at Sian Davies, Cydlynydd Gwynedd ar y Cyd, i'r cyfeiriad a nodir **erbyn y 19eg o Fedi** os gwelwch yn dda.

Nodyn gan y Prif Swyddog...

Mae'n anhygoel fel mae'r flwyddyn hon yn mynd heibio mor sydyn a chymaint yn digwydd rhwng pob rhifyn o Mantell (gan gynnwys lot o law a thywydd od iawn!).

Er gwaetha hyn oll mae 'na lot fawr wedi digwydd dros yr wythnosau diwethaf sydd yn werth tynnu eich sylw atynt.

Cynhaliwyd y Te Gwirfoddoli ym Mhlas Glyn Y Weddw, Llanbedrog eleni a chafwyd llond lle o wirfoddolwyr a chefnogwyr y sector yn dathlu cyraeddiadau unigolion yn y maes gwirfoddoli. Digwyddiadau fel hyn, sy'n cydnabod gwaith da, sydd yn gwneud i ni sylweddoli pa mor allweddol bwysig yw gwirfoddoli i'n economi ni yng Ngwynedd ac i iechyd a lles unigolion yn gyffredinol. Ategwyd hyn gan y gŵr gwadd y Cynghorydd Dafydd Iwan, sydd ei hun yn gefnogwr a hyrwyddwr mawr i'r sector yng Ngwynedd. Cafwyd digwyddiad eithriadol lwyddiannus, a Phlas Glyn Y Weddw, fel arfer, yn ei lawn ogoniant yn ein croesawu.

Cynhaliwyd Cynhadledd y Trydydd Sector ym Mhorthmadog ddechrau Gorffennaf hefyd a chafwyd cyfle i rannu gwybodaeth allweddol bwysig gyda'r sector yng Ngwynedd. Buom yn ffodus iawn i gael nifer o siaradwyr blaengar yn eu maes i gynnal trafodaethau sef swyddogion o'r Cynulliad Cenedlaethol i drafod Cynllun Gofodol Cymru a'i oblygiadau hir dymor i'r sector a hefyd cafwyd trafodaeth ac esboniad am y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gan gyfarwyddwyr y prosiect yma o fewn y Cynulliad. Yn ogystal cafwyd cyfle i drafod arian Ewrop newydd sef arian Cydgyfeiriant a'r oblygiadau i'r sector. Bu'n gyfle ardderchog i rannu gwybodaeth allweddol gyda chi am y materion pwysig yma. Eleni, am y tro cyntaf , cynhaliwyd y Ffair Ariannu ochr yn ochr â'r gynhadledd a gwn fod nifer fawr ohonoch wedi cael budd o drafod gyda chyllidwyr.

I'r rhai ohonoch sydd â mynediad i'r we, un datblygiad sylweddol bwysig dros yr wythnosau diwethaf yw datblygiad safle gwe newydd Mantell Gwynedd yn **www.mantell-gwynedd.com**. Mae hon yn wefan ddeinamig, interactif newydd a byddwn yn ymdrechu i roi pob dogfen o bwys arni i bwrpas ymgynghori a rhannu gwybodaeth. Bydd yna lawer mwy i'r wefan hon, megis hysbysebu swyddi, materion gwybodaeth bwysig, newyddlen Mantell a hysbysebion. Cymerwch olwg ar y wefan a defnyddiwch y safle i roi adborth i ni neu i rannu gwybodaeth.

Fe fyddwch i gyd, fel aelodau ,wedi cael gohebiaeth yn ddiweddar ynglyn â Grwp Cyswllt y sector yn ogystal â'r Grwp Craffu Trydydd Sector. Cafwyd nifer fawr o enwebiadau ar gyfer y Grwp Cyswllt ac rydym wedi mynd i etholiad. Byddwch wedi derbyn papurau erbyn hyn. Cofiwch bleidleisio! Mae'r holl enwau a enwebwyd yn dod yn aelodau o Grwp Craffu Trydydd Sector Gwynedd - dyma'r cam allweddol bwysig yng Ngwynedd i sicrhau fod y sector yn cael mewnbwn ar lefel craffu y Cyngor. Mae hwn yn waith arloesol bwysig yng Ngwynedd a byddwn yn eich cadw yn y pictiwr ynglyn â datblygiadau dros y misoedd nesaf.

I gloi, mae Mantell Gwynedd yn parhau i wneud sylwadau pwysig ar ddatblygiad y Cynllun Gofodol yn y Gogledd Orllewin. Mae'r strategaeth ddatblygu economaidd wedi peri pryder sylweddol i ni yn y sector oherwydd ofnau am sut y bydd ardaloedd gwledig yn gallu datblygu yn sgil buddsoddi mawr yn yr "hubs" sydd wedi eu hadnabod. 'Rydym yn parhau i weithio yn galed ar yr ymatebion a'r ymgynghori ar y gwaith yma. Fe welwch ein sylwadau mwyaf diweddar ar y strategaeth ddatblygu economaidd yn adran newyddion ar ein gwefan **www.mantellgwynedd.com**.

Dyna'r cyfan am rwan. Mwynhewch y newyddlen a mwynhewch weddill yr haf!

Tan Tro Nesa,

Bethan

Gŵyl Jas Abersoch Mehefin 2007

Trwy lwc, neu gynllunio da, cynhaliwyd 6ed Gŵyl Jas Abersoch ar unig benwythnos hafaidd mis Mehefin eleni.

Daeth nifer fawr o ymwelwyr a cherddorion o dramor ac o Brydain i'r ŵyl oedd yn canolbwyntio ar hyrwyddo ieuenctid. Addurnwyd y pentref a ffenestri'r siopau ac roedd cerddoriaeth yn atsain dros yr ardal yn groeso cynnes.

Ar gychwyn yr wythnos cafodd plant o'r 4 ysgol gynradd leol fwynhau gweithdai gyda Mr John Glyn Jones ac aelodau iau band pres Senidorf yr Oakeley. Bu'r plant wrthi wedyn yn cynllunio 160 o bosteri ar thema'r wyl î'w harddangos yn Neuadd y Pentref. Cafwyd digon o gyfleoedd eraill i'r plant fod yn rhan o'r ŵyl a chawsant amser wrth eu bodd.

Cafwyd cefnogaeth gref i'r cyngerdd/gweithdy brynhawn Sadwrn, a gynhaliwyd gan Huw Warren gyda chymorth gan Marie Clare, Anna Georgina a Cathryn Harpwood. Roedd y dalent o bob cwr o Wynedd yn ardderchog.

Bu bandiau ac unawdwyr o'r safon uchaf yn perfformio 45 sesiwn yn y 10 gwahanol leoliad dros y penwythnos i gynulleidfaoedd llawn. Roedd amrywiaeth eang o gerddoriaeth a chafwyd cynrychiolaeth o'r Iseldiroedd, Norwy, Denmarc, America, Canada ac Awstralia.

Roedd y pentref yn hynod brysur a phob llety'n llawn. Cafodd yr ymwelwyr a thrigolion lleol gyfle i glywed perfformwyr o'r radd flaenaf a mwynhau gweithgareddau ychwanegol.

Cafwyd cymorth i hyrwyddo'r llwybrau troed a phwysigrwydd cadw'n heini gan Her Iechyd Cymru, Taith Ymylon Cymru a Cherdded Gogledd Cymru fel rhan o'r ŵyl.

Hoffai'r Pwyllgor Gwirfoddol Lleol ddiolch i'r gymuned leol, beirniaid y cystadlaethau, nifer o wirfoddolwyr, codwyr arian a noddwyr am eu holl gymorth a chefnogaeth. Hebddynt hwy fyddai'r wyl ddim yn bŵod!

Mae 7fed Gwyl Jas Abersoch yn cael ei hystyried yn barod. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gymorth gan unrhyw un a hoffai wirfoddoli. Cysylltwch â Swyddfa Wybodaeth Twristiaid Abersoch ar 01758 712929

Helpwch i wneud Sgowtio yn realiti i bobl ifanc lleol drwy roi eich amser i wirfoddoli.

Ydych chi yn berson cyfrifol, dibynadwy ac yn awyddus i gyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc yng Nghymru?

Mae Cyngor Sgowtiaid Cymru (WSC) yn gobeithio recriwtio nifer o oedolion i wirfoddoli mewn amrywiaeth o gyfleon gwirfoddoli (yn cynnwys arweinyddion i weithio yn uniongyrchol â phobl ifanc yn ogystal a phobl i helpu hefo chyfrifon ayb), sef y bobl hynny sy'n ffurfio asgwrn cefn y Mudiad.

Efallai eich bod eisoes yn ymwybodol fod y Gymdeithas Sgowtiaid yn agored i bobl ifanc o 6 i 25 mlwydd oed ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleon sy'n ysbrydoli o TG i chwaraeon eithafol. Felly os oes gennych chi y ddawn i arwain a gosod esiampl ac yn awyddus i ryddhau ychydig o amser rhydd i wirfoddoli hefo'r mudiad cyffrous yma, mae cyfle arbennig i chi hefo'r WSC!

Os yw'r uchod yn apelio ac os ydych chi yn fwy na parod i gyflwyno pobl ifanc i anturiaethau Sgowtio, peidiwch ag oedi, cysylltwch â'r WSC ar unwaith ar 01446 795277 neu ebostiwch Shirley.myall@scoutswales.org.uk, i ganfod mwy am gyfleon gwirfoddoli yn eich ardal chi.

Mae angen eich help chi ar Scottish Power a'r Trinity Mirror Gogledd Cymru er mwyn dod o hyd i...

eich pencampwyr

Maent yn chwilio am aelodau arbennig iawn yn eich cymuned sy'n haeddu Gwobrau Pencampwyr blynyddol Scottish Power/Trinity Mirror Gogledd Cymru 2007.

Dyma'r categoriau ar gyfer 2007:

- Tîm amgylchedd penigamp
- Ysgol penigamp
- Pencampwr ifanc
- Pencampwr chwaraeon
- Pencampwr cymunedol

Dyddiad cau ar gyfer enwebiadau: **Dydd Gwener, 21ain Medi, 2007**
Am ragor o wybodaeth ac i dderbyn ffurflen gais,cysylltwch â Roy Jones, Scottish Power ar: **0151 633 2929**

8 Rhag 2007 - 6 Ion 2008 : 10am - 9pm
CRACYR NADOLIG
BAE COLWYN
Hwyl yr Wŷl ar y rhew i bawb!
Dewch i fwynhau hud y Nadolig ar lawr sglefrio i hyd at 60 o bobl!
Rhew iawn, coed pîn, moch coed, carolau a stondinau Nadolig!
GELLIR ARCHEBU AR GYFER GRWPIAU A PHARTION PREIFAT YN AWR!
LLOGI CYFFREDINOL - o 1af TACHWEDD
Prisiau o £4 i oedolion a £3 i blant (sesiwn 45 mun yn cynnwys asgidiau sglefrio)
Ffôn: 01492 872000
www.colwynchristmas.com

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **9ed Tachwedd, 2007**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau:
beryl@mantellgwynedd.com ● Ffôn: 01341 422575

Cymunedau Nesaf

Yn y ddogfen 'Cymru'n Un' cafwyd ymrwymiad gan Lywodraeth newydd y Cynulliad i ddatblygu'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i'w cham nesaf - Cymunedau Nesaf, gan fanteisio ar brofiad y mudiad datblygu cymunedol ehangach yng Nghymru a chanlyniadau'r gwerthusiad cyfamserol o'r rhaglen.

Bydd Cymunedau Nesaf yn canolbwyntio ar ganlyniadau a gweithgareddau yn hytrach na meithrin galluoedd. Mae'n debyg mai rhaglenni sy'n mynd i'r afael yn ymarferol â her amcanion adfywio cymunedol a chyfiawnder cymdeithasol megis tlodi plant fel engraifft fydd y rhain.

Bydd cydweithio llwyddiannus â phartneriaid eraill i addasu a 'phlygu' rhaglenni yn rhan bwysig o Gymunedau Nesaf.

Wrth ddatblygu Cymunedau Nesaf, bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw dysgu oddi wrth wersi'r asesiad cyfamserol ac arferion gorau grwpiau Cymunedau'n Gyntaf ledled Cymru yn ogystal ag ymgynghori'n eang ar y cynlluniau a rhoi amser priodol i roi'r rhaglen newydd ar waith.

Mae'n debyg felly na fydd y rhaglen newydd yn dechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, 2008-09. Yn dilyn yr ymgynghoriad yn hwyrach eleni y bwriad presennol yw i ddechrau ar y cylch ariannu tair blynedd newydd, ar gyfer Cymunedau Nesaf, ym mlwyddyn ariannol 2009-2010.

Y Cysylltiad
Cymunedau yn Gyntaf

Tlodi, Cyfranogaeth ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd
Cynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf (CFSN)

11-12 Hydref 2007 yn Stadiwm Liberty, Abertawe

Bydd y gynhadledd hon, pumed digwyddiad blynyddol Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, yn edrych ar y cyfle unigryw y mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ei gynnig i leihau tlodi a gwella gwasanaethau yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae'r gynhadledd yn agored i unrhyw un sy'n ymwneud â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar lefel leol a dyrennir llefydd ar sail y cyntaf i'r felin.

Os hoffech archebu lle, llenwch y ffurflen archebu drwy ymweld â: **http://www.communitiesfirst.info/NewsAndEvents/events.aspx?id=1304&LangType=1106** a'i dychwelyd at Mel Knights, WCVA, Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH, drwy ffacsio i **029 2043 1701**, neu ar ebost i **mknights@wcva.org.uk**.

Rhaid ichi ddychwelyd y ffurflen erbyn y **1af o Hydref 2007**.

Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) 2007-11

Cyhoeddwyd newidiadau i gronfa boblogaidd Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyma'r prif newidiadau:

- O hyn ymlaen rhaglen gyllido cyfalaf-yn-unig fydd y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol
- Canolbwyntir ar ariannu cynigion llai gan fudiadau llawr gwlad
- Darperir cymorth cynymgeisio i ymgeiswyr.

Dim ond dwy rownd flynyddol fydd o hyn ymlaen a'r dyddiadau cau nesaf yw:

19 Hydref 2007 a 11 Ebrill 2008

Mae pecyn ymgeisio newydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfeiriadau canlynol:

http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/cfap/?lang=cy

Fel arall gallwch gysylltu â Richard Fowler sy'n gyfrifol am geisiadau o Wynedd ar **01685 729317** neu Roger Plater sy'n gyfrifol am y ceisiadau cyfrwng Cymraeg ar **01685 729321.**

Terfyn GWRAIDD

Cofiwch mai'r **30ain o Fedi** yw dyddiad cau terfynol **Cronfa GWRAIDD** sy'n agored i fudiadau bychain o fewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Bwriad y gronfa yw cynyddu hyder a gallu grwpiau. Gallwch ymgeisio am hyd at **£5000**.

Gallwch archebu ffurflen gais drwy ffonio llinell gymorth Cymunedau'n Gyntaf ar: **0800 5878898** neu drwy anfon ebost at **enquiries@communitiesfirst.info**

Beth sydd mewn enw?

Ydi... mae'r enw wedi newid, ac rydym ninnau yma ym Mantell Gwynedd bellach wedi dilyn y tueddiad ar draws Cymru, ac ers Mehefin eleni wedi mabwysiadu'r enw newydd 'Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd', er cofiwch, wedi dweud hynny, mae'r gwasanaeth a'r CROESO yr un fath…

Wythnos Gwirfoddolwyr 2007 - drwy lygad y camera!

RECRIWTIO

Dolgellau - 1af Mehefin

Bangor - 5ed Mehefin

Pwllheli - 6ed Mehefin

CYDNABOD a GWOBRWYO...

Dafydd Iwan, ein gwr gwadd yn cyflwyno...

Manon Evans o Flaenau Ffestiniog

Lawrence Charles Mort o Arthog

Griff Roberts o Lanrug

Harold Toone o Lanaber

Xanthe Larcombe o Brifysgol Bangor

Gwenfor Roberts o Gaernarfon

Judith Easter ar ran CYSWLLT

Eleri Ann Jones o'r Groeslon

Pawb yn mwynhau y 'Te dathlu'

Am fanylion llawn o'r Wythnos Gwirfoddolwyr, ymwelwch â www.mantellgwynedd.com

FFAIR WIRFODDOLI



Cofiwch am y **FFAIR WIRFODDOLI** yn y Ganolfan ym Mhorthmadog, dydd Gwener, **28ain o Fedi rhwng 10.00am a 3.30pm**. Bydd Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn agor y Ffair yn swyddogol am 10.00 y bore.

Bydd hyn yn gyfle ardderchog i fudiadau hyrwyddo eu gwaith yn ogystal â denu gwirfoddolwyr newydd.

Adloniant gan Frizbee a chyfle i ennill gwobrau GWERTH CHWEIL!

Dyma'r dyddiad mae mudiad Macmillan - Cymorth Canser yn cynnal y **'BORE COFFI MWYAF YN Y BYD'** - dewch am banad, a'u cefnogi nhw'r un pryd.

Ein bwriad yw cael diwrnod i'w gofio - bydd croeso cynnes i BAWB

Am ragor o fanylion cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd ar:

01286 672626 neu 01341 422575

Hyfforddiant Mantell i ddod:

MEDI 2007

Gweithdy Cyfrifoldebau Swyddogion Mudiadau Gwirfoddol Bach (Ysgrifennydd, Cadeirydd, Trysorydd)
Medi 27ain
7.00y.h. - 9.00y.h.
Theatr y Ddraig, Bermo
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.
Amcan y gweithdy yma yw cyflwyno braslun o gyfrifoldebau swyddogion mudiadau gwirfoddol.

HYDREF 2007

Creu Gwefan - Manteisio ar eich gwefan a'r Wê
Caernarfon - Hydref 5ed
Dolgellau - Hydref 19eg
10.00y.b. - 3.00y.p.
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.
Sesiwn ar gyfer deallt cryfderau a gwendidau'r Wê, adnabod cynulleidfa a teilwro gwefan ar eu cyfer. Deallt strwythur gwefan, adnabod ffyrdd o wneud eich gwefan yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr a deallt yr angen i gydfynd â'r gyfraith.

Cymorth Cyntaf Brys - Person Penodedig
Hydref 9fed
10.00y.b. - 4.00y.p.
Medi-Tec, Intec, Parc Menai, Bangor
Cost: - £40 i bawb.

Cynllunio Busnes a Strategol
Hydref 10fed
Ystafell Madog, Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.
Hyfforddiant i ddeallt pwysigrwydd a buddiannau cynllunio tymor hir a rhoi adnoddau ymarferol i chi gynllunio'n fwy effeithiol o fewn eich mudiad.

TACHWEDD 2007

Paratoi Strategaeth Codi Arian Gynaliadwy
Tachwedd 7fed
Ystafell Madog, Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Ennill Arian
Tachwedd 21ain
Gwesty'r Royal Victoria, Llanberis
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.
Rhoi darlun cyffredinol o'r llwybrau sydd ynghlwm wrth ddatblygu syniad ar gyfer cynhyrchu incwm, ac mae'n ystyried y sgiliau sydd eu hangen i fabwysiadu diwylliant entrepreneuriaid.

RHAGFYR 2007

Rhoi a Chodi Arian Cyhoeddus
Rhagfyr 10fed
Gwesty'r Celt, Caernarfon
Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.
Bydd yr hyfforddiant yma yn helpu mudiadau i gael gwell dealltwriaeth o'r opsiynau niferus sydd ar gael i godi arian gan unigolion, y cyhoedd a chan gyflogwyr lleol.

Am fwy o fanylion am yr uchod cysylltwch â Lindsey Ellis, Swyddog Hyfforddiant, Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau. Ffôn: 01341 422575 neu lindsey@mantellgwynedd.com

Digwyddiad

Cyfarfod Rhwydwaith, Iechyd, Gofal a Lles
Dydd Mawrth, Medi 18, 2007
Y Ganolfan Porthmadog - 10:15am - 12:30pm

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Rhwydwaith ar Fedi 18 yn y Ganolfan (ger y Cob) ym Mhorthmadog. Dyma'n fras beth fydd cynnwys y cyfarfod:

- **Cynllunio Gwasanaethau yn y Gymuned** - cyflwyniad gan Clare Jones, Bwrdd Iechyd Gwynedd
- **Diweddariad Cyffredinol** - Sioned Llwyd Larsen, Mantell Gwynedd
- **Grwpiau trafod - 'Ychwanegu Gwerth'** - arweiniad strategol i'r sector wirfoddol a chymunedol wrth gefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sioned Larsen ar: 01286 672626 neu sioned@mantellgwynedd.com

Dewch i Gerdded Cymru

Nod 'Dewch i Gerdded Cymru' yw cael mwy o bobl i gerdded yn rheolaidd. Ddechrau mis Hydref 2007 bydd yna gyfle i wneud cais am gyllid grant o hyd at £10,000 i ehangu cyfleoedd sy'n bodoli yn barod neu ddatblygu rhai newydd a hyd at £30,000 ar gyfer prosiectau hefo mwy nag un haen o weithgarwch. Bydd y dyddiad cau ddechrau mis Tachwedd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Shana Thomas ar: **0845 0450906 neu shana.thomas@scw.co.uk**

Cynhadledd Age Concern

Mae Age Concern Cymru yn cynnal ei Gyfarfod Blynyddol a Chynhadledd ar **Ddydd Mercher, Hydref 17, 2007 yn y Ganolfan Hamdden yn Rheadr, Powys**. Themâu'r Gynhadledd eleni fydd - 'Sut y dylai gwasanaethau ysbytai ddiwallu anghenion pobl hŷn yng Nghymru'
Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Age Concern Cymru - ar: **029 2043 1555 neu www.accymru.org.uk**

CAFFI'R COF - DE GWYNEDD

A ydych chi'n gofalu am unrhyw un sy'n anghofus? Ydych chi'n teimlo ar eich pen eich hun ac angen siarad hefo rhywun?

Mae Clwb Rotari Mawddach wedi cychwn cynllun peilot sef 'Caffi'r Cof' a fydd yn cynnig cefnogaeth i ofalwyr. Gall eich anwyliaid ddod 'efo chi i'r Caffi i fwynhau awyrgylch gyfeillgar a bydd cyfle i chithau sgwrsio a chael paned o de neu goffi yng nghwmni gofalwyr eraill.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Beryl Clark ar: **01341 423467**

Lles emosiynol a symudedd cymdeithasol

'Mae lles emosiynol pobl ifanc yn dirywio' - dyna yw casgliad gwaith Ymchwil a gyflawnwyd gan yr elusen NCH. Mae'r astudiaeth yma wedi canfod cynnydd o 100 y cant yn amlder problemau emosiynol ac anhwylderau ymddygiad ymhlith pobl ifanc ers yr 1930au, a bod un o bob deg plentyn sydd ag anhwylder iechyd meddwl yn 'glinigol arwyddocaol'.
Gellir lawrlwytho copi o'r ymchwil o:

http://www.nch.org.uk/get-involved/index.php?i=484

Ymgynghoriad

Gwahodd sylwadau am y Strategaeth Celfyddydau mewn Iechyd a Lles ddrafft

Mae Cyngor y Celfyddydau wedi cyhoeddi strategaeth ddrafft ynglŷn â'r Celfyddydau ac Iechyd a Lles ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth â grwp llywiô o gynrychiolwyr o feysydd iechyd, addysg, llywodraeth leol, y celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad, dan gadeiryddiaeth yr Athro Stephen Tomlinson CBE. Gwahoddir sylwadau ar y strategaeth; y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion yw **20ed Medi 2007**. Mae copi o'r strategaeth ar gael ar: **www.artswales.org/viewnews.asp?id=621**

Grant gan TalkTalk

Prosiectau Rhyngrwyd

Mae'r cwmni cyfathrebu TalkTalk a'r elusen cynhwysiant digidol, Dinasyddion Ar-lein, wedi lansio'r Gwobrau **'Arloesi yn y Gymuned'**, sy'n cynnig grantiau o **£2,000** i'w wario ar gyfrifiaduron, caledwedd, meddalwedd neu arbenigedd technegol i ddechrau neu ddatblygu prosiect rhyngrwyd. Mae'r wobr hefyd yn cynnwys band eang TalkTalk yn rhad ac am ddim. Y **dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau**, sydd ond yn gallu cael eu cyflwyno ar-lein, **yw 28 Medi 2007**. Mae rhagor o fanylion ar gael yn **www.talk-talk.co.uk.**

Grant Cronfa Ymwybyddiaeth Datblygu Rhyngwladol 2008-9

Mae'r Adran Datblygu Rhyngwladol (ADRh) yn cefnogi gweithgareddau mudiadau sy'n gweithio ym maes addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang trwy'r rhaglen nawdd hon, a reolir yng Nghymru gan Cyfanfyd, Cymdeithas Addysg Datblygu Cymru.

Rhaid i brosiectau, fodd bynnag, fod â phersbectif byd eang neu elfen o ddatblygu rhyngwladol. Gall prosiectau bara am un, dwy neu dair blynedd. Bydd grantiau ar gael am isafswm o £1,000 ac uchafswm o £10,000 y flwyddyn. **Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Hydref 2007.**

Gallwch gael canllawiau neu wybodaeth bellach trwy gysylltu â: Dominic Miles neu Annette Boyle, Cyfanfyd, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3AP. Ffôn 029 2066 8999, e-bost info@cyfanfyd.org.uk.

Grant Gwirfoddoli yng Nghymru - 2007/08

Nod y gronfa yw helpu mudiadau gwirfoddol i recriwtio gwirfoddolwyr newydd a chynnig cefnogaeth a hyfforddiant er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad cadarnhaol er budd eu cymunedau. **Dyddiad olaf derbyn ceisiadau am rownd 2007/08 yw 28 Medi 2007.**

Nod y gronfa yw: cefnogi prosiectau yng Nghymru sydd ag amcanion a gyflawnir yn bennaf drwy ymdrech a chefnogaeth gwirfoddolwyr; cefnogi mudiadau nad ydynt yn cynhyrchu elw sy'n ceisio grant yn bennaf er mwyn recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr; hybu safonau ac arferion da mewn gwaith gwirfoddol; cefnogi pobl sydd mewn perygl o gael eu hallgau'n gymdeithasol trwy gyfrwng gwirfoddoli.

Mae grantiau o hyd at £25,000 ar gael yn y flwyddyn gyntaf, a cheir cyfle i ymgeisio am gyllid ail a thrydedd flwyddyn. Mae unrhyw fudiad gwirfoddol â chyfansoddiad sy'n gweithio yng Nghymru, neu'n bwriadu gweithio yng Nghymru, yn gymwys i ymgeisio. Gwahoddir mudiadau sydd â diddordeb i ofyn am ffurflen gais a chanllawiau gan Lein Gymorth WCVA ar **0800 2888 329** neu trwy anfon e-bost at **help@wcva.org.uk.**

Grantiau Comic Relief

Mae grantiau ar gael i gyrff gwirfoddol a grwpiau hunangymorth gyda chyfansoddiad.

Yn y DU mae gennyn ni bum rhaglen sy'n rhoi Grantiau Mawr (dros £5,000):

1. **Pobl Ifanc**
2. **Pobl Hyn**
3. **Iechyd Meddwl**
4. **Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches**
5. **Trais Domestig**

Y mae tair rhaglen o Grantiau Bach (o dan £5,000):
Ar gael dim ond i gyrff sydd â throsiant o lai na £150,000 y flwyddyn gyda blaenoriaeth i grwpiau sydd â throsiant o lai na £50,000 y flwyddyn.

1. **Pobl Hyn**
2. **Iechyd Meddwl**
3. **Cymunedau Difreintiedig**

Am fwy o fanylion, canllawiau a /neu phecyn cais ewch i: **www.comicrelief.co./ukgrants**

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi arian dan bedair rhaglen wahanol sef Y Celfyddydau, Y Gymuned, Chwaraeon a'r Amgylchedd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'r rownd nesaf o raglenni grantiau'r Ymddiriedolaeth yw 12.00pm ar 3ydd Hydref 2007.

Am fwy o fanylion am eu rhaglenni grant, neu i lawrlwytho ffurflen gais a chanllawiau (sydd ar gael yn Saesneg yn unig) ewch i'w gwefan newydd: **www.millenniumstadiumtrust.co.uk**